



Pwy sydd angen cofrestru a pham?

Gwybodaeth am gofrestru, pam rydyn ni'n cofrestru, pwy all gofrestru a buddion bod yn berson cofrestredig.

Cyhoeddwyd gyntaf: 11 January 2017

Diweddariad olaf: 15 May 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru> am y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am pwy sy'n gorfod cofrestru i weithio yng Nghymru, pam rydyn ni'n cofrestru gweithwyr a manteision cofrestru.

Cynnwys y dudalen

1. [Beth yw cofrestru?](#)
2. [Pwy sydd angen cofrestru](#)
3. [Manteision o weithlu cofrestredig](#)
4. [Pam rydyn ni'n cofrestru](#)
5. [Data ac adroddiadau cofrestru](#)
6. [Cysylltu â ni](#)

Cynnwys y dudalen

1. [Beth yw cofrestru?](#)
2. [Pwy sydd angen cofrestru](#)
3. [Manteision o weithlu cofrestredig](#)
4. [Pam rydyn ni'n cofrestru](#)
5. [Data ac adroddiadau cofrestru](#)
6. [Cysylltu â ni](#)

Beth yw cofrestru?

Prif ddiben cofrestru yw diogelu'r cyhoedd gan sicrhau mai dim ond y rhai sy'n gymwys ac yn gymwysedig sy'n gallu darparu gofal a chymorth mewn rolau lle mae angen

cofrestru.

Mae cofrestru gyda ni yn golygu eich bod yn rhan o weithlu proffesiynol a gallwch ddangos bod gennych sgiliau a gwybodaeth sy'n hanfodol i ddarparu gofal a chymorth da i bobl Cymru.

Dyma ganllaw fideo cyflym ar gofrestru gyda ni.

- **Gweld trawsgrifiad**

Dyma ganllaw hanfodol a chryno am gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal y gofrestr o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Gofrestr yn dangos pwy sydd wedi profi fod ganddynt y gwerthoedd, sgiliau a'r hyfforddiant cywir i fod yn weithiwr gofal cymdeithasol.

Mae'n helpu'r cyhoedd i wybod y gallant ymddiried ynddoch a dibynnu arnoch fel gweithiwr.

Pan fyddwch wedi'ch cofrestru, byddwch yn gallu defnyddio teitl eich proffesiwn.

Byddwch yn cael eich cefnogi gan

- y côd ymarfer proffesiynol ar gyfer gofal cymdeithasol
- Canllawiau ymarfer ffurfiol sy'n disgrifio arfer da
- Gwybodaeth ac adnoddau sy'n ceisio mynd i'r afael â rhai o'r pethau sy'n bwysig i chi yn eich gwaith
- Gwahoddiadau i ddigwyddiadau, cynadleddau ac ymgynghoriadau

Mae'n amser cofrestru!

Rhaid i bawb ar y gofrestr gytuno i ddilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol ac Arweiniad Ymarfer ar gyfer eu rôl. Gellir gweld copïau yn y ffurflen gais ac ar ein gwefan.

I gychwyn eich cais, ewch i GCCArlein i greu cyfrif.

GCC ar-lein yw ein porth cofrestru. Mae'n cynnwys canllawiau cam wrth gam ar sut i gofrestru.

Os nad ydych wedi cofrestru eto, gallwch ddefnyddio GCC ar-lein i wneud cais ar-lein.

Fel rhan o'r broses hon, bydd angen i chi uwchlwytho'r dogfennau a restrir a dewis rhywun priodol i gymeradwyo'ch cais.

Ar ôl i chi gofrestru, gallwch ddefnyddio GCC ar-lein i gynnal eich cofrestrriad.

Mi fydd hyn yn eich galluogi i ddiweddarau unrhyw newidiadau fel eich cyfeiriad, manylion swydd, gwybodaeth bersonol a phroffesiynol, adnewyddu eich cofrestrriad a thalu eich ffioedd.

Gallwch hefyd ddefnyddio GCC ar-lein i gadw cofnod cyfoes o'ch datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Am fwy o wybodaeth neu i gychwyn eich cofrestrriad, ewch i GCCArlein.cymu

Mae GCCarlein wedi newid lliw ond mae'r ffordd rydych chi'n ei ddefnyddio'r un fath â'r hyn a ddisgrifir yn y fideo hwn.

Pwy sydd angen cofrestru

[Mae'r Gofrestr](#) yn agored i'r grwpiau gweithwyr canlynol:

- gweithwyr cymdeithasol
- myfyrwyr gwaith cymdeithasol

Rheolwyr gofal cymdeithasol

- rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu
- rheolwyr cartrefi gofal i oedolion
- rheolwyr lleoli oedolion
- rheolwyr eiriolaeth (gwasanaethau i blant a phobl ifanc)
- rheolwyr gofal cartref
- rheolwyr gwasanaethau maethu
- rheolwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr canolfannau preswyl i deuluoedd
- rheolwyr gwasanaethau llety diogel
- rheolwyr ysgolion preswyl arbennig (gellir ymgeisio i gofrestru o 1 Ebrill 2024 a bydd angen bod ar y Gofrestr erbyn 1 Ebrill 2025).

Mae'n rhaid i'r holl weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol gofrestru ar ôl cwblhau eu cymhwyster neu ddechrau yn y swydd.

Gweithwyr gofal cymdeithasol

- gweithwyr cartrefi gofal i oedolion
- gweithwyr gofal cartref
- gweithwyr gofal preswyl i blant
- gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd
- gweithwyr gwasanaethau llety diogel
- gweithwyr ysgolion preswyl arbennig (gellir ymgeisio i gofrestru o 1 Ebrill 2025 a bydd angen bod ar y Gofrestr erbyn 30 Medi 2026).

Mae gan bob gweithiwr gofal cymdeithasol chwe mis o ddyddiad dechrau eu rôl i gofrestru gyda ni.

Mae'n ofyniad cyfreithiol i weithwyr sy'n gyflogedig yn y rolau hyn gofrestru gyda ni.

Os ydych chi'n gweithio mewn mwy nag un o'r grwpiau sydd wedi'u rhestru uchod, neu os byddwch yn newid y grŵp rydych chi'n gweithio ynddo, bydd angen i chi [newid eich cofrestriad](#). Gallwch newid eich cofrestriad trwy fewngofnodi i'ch [cyfrif GCCarlein](#).

Os nad ydych chi'n siŵr os ydych chi angen cofrestru gyda ni, neu pryd y dylech chi gofrestru, cysylltwch â'n tîm am help drwy e-bostio ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru.

Manteision o weithlu cofrestredig

Mae manteision bod yn berson cofrestredig yn cynnwys y canlynol:

Meithrin ymddiriedaeth a hyder:

- mae pobl yn gallu dibynnu ar weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig
- rhoi hyder i bobl eich bod yn dilyn [y Côt](#)

Gwerthfawrogi gweithwyr gofal cymdeithasol:

- dangos bod ganddoch chi'r sgiliau a'r wybodaeth i fod yn weithiwr gofal cymdeithasol
- dangos eich bod wedi eich hyfforddi a'ch bod yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer ddatblygu gwybodaeth a sgiliau

- cyflogwyr yn gallu darparu'r gefnogaeth a datblygiad rydych ei angen
- bydd gwybod mwy amdanoch chi'n helpu ni drefnu ffyrdd o'ch cefnogi chi.

Sicrhau bod pobl yn ddiogel:

- amddiffyn hawliau pobl a gwneud yn siŵr eu bod nhw yn cael ei gwrandio ar
- cefnogi pobl i fod yn annibynnol ac amddiffyn eu hunain
- os nad ydy gweithiwr yn addas i ymarfer gallen nhw gael eu tynnu o'r Gofrestr. Os ydyn nhw'n cael eu tynnu oddi arno, ni fydden nhw yn cael ymarfer yng Nghymru.

Manteision eraill:

- defnyddio teitl eich proffesiwn yn gyfreithlon
- cymorth a gwybodaeth o'n dogfennau canllawiau ymarfer a'n cyhoeddiadau eraill.

[Darganfyddwch fwy am sut rydyn ni'n gallu rhoi cymorth i chi fel person cofrestredig.](#)

-
-

Pam rydyn ni'n cofrestru

Rydyn ni'n cadw cofrestr o bobl sydd wedi dangos eu bod yn addas i weithio ym maes gofal cymdeithasol. Rhaid i bawb ar [y Gofrestr](#) ddangos eu bod:

- â chymwysterau priodol
- yn addas yn gorfforol ac yn feddyliol i ymarfer
- â'r cymeriad a'r cymhwysedd
- dilyn y [Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol \(y Côd\) a chanllawiau ymarfer](#) ar gyfer eu rôl
- yn bwriadu ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru
- yn ymarfer yn y maes y mae eu cais yn ymwneud â'u cais i gofrestru.

Rydyn ni'n defnyddio Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2024 i gynnal y Gofrestr. Cymeradwyir y rheolau hyn gan Lywodraeth Cymru, a rhain yw'r fframwaith ar gyfer cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol.

- [Rheolau Cofrestru 2024](#)
PDF 557KB
- [Rheolau Cynnwys Y Gofrestr 2024](#)

Data ac adroddiadau cofrestru

Ers Ebrill 2025, y nifer o bobl gofrestredig yw:

- 6,819 - gweithwyr cymdeithasol
- 5 - rheolwr gwasanaeth mabwysiadu
- 1,316 - rheolwyr cartrefi gofal i oedolion
- 27,047 - gweithwyr cartrefi gofal i oedolion
- 14 - rheolwyr lleoli oedolion
- 2 - rheolwr eirioli i blant a phobl ifanc
- 1,053 - rheolwyr gofal cartref
- 22,768 - gweithwyr gofal cartref
- 17 - rheolwyr gwasanaeth maethu
- 445 - rheolwyr gofal preswyl i blant (gan gynnwys gofal preswyl diogel)
- 4,948 - gweithwyr gofal preswyl i blant (gan gynnwys gofal preswyl diogel)
- 4 - rheolwyr canolfan preswyl i deuluoedd
- 80 - gweithwyr canolfan preswyl i deuluoedd
- 4 - rheolwr ysgol breswyl arbennig
- 802 - myfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n cyhoeddi adroddiadau data ar y wybodaeth a roddir i ni gan ymgeiswyr a phobl cofrestredig.

[Gweld holl adroddiadau data cofrestru.](#)

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).